





Nyth

Adroddiad Blynyddol

2017 – 2018



Rhan o raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru
Part of the Welsh Government Warm Homes programme



**Nyth
Nest**

Gwneud
Cymru'n
Glyd
Making
Wales
Cosy



**Cartrefi Clyd
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Warm Homes**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Rhagair y Gweinidog

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol Nyth Cartrefi Clyd 2017-18.



Mae'r Adroddiad yn amlinellu cyflawniadau 2017-18, ac mae fy sylwadau yn cyfeirio at lwyddiannau cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru rhwng 2011 a 2018.

Mae trechu tlogi tanwydd yn her yng Nghymru oherwydd bod ganddi rai o'r cartrefi hynaf, a adeiladwyd mewn dulliau traddodiadol, a nifer fawr o eiddo waliau solet, sy'n anodd eu trin a heb gyflenwad nwy. Y ffordd fwyaf effeithiol o drechu tlogi tanwydd, gan ddefnyddio'r pwerau sydd gennym, yw drwy wella effeithlonrwydd ynni eiddo domestig ac mae cynllun Nyth yn rhan o'n strategaeth tlogi tanwydd. Yn ystod y saith mlynedd, mae ein buddsoddiad sylweddol yn Nyth wedi mynd uwchlaw £134 miliwn.

Cafodd cynllun Nyth ei lansio yn 2011 er mwyn trechu tlogi tanwydd sy'n cael effaith sylweddol ar iechyd a llesiant cymdeithasol ac economaidd deiliaid tai. Mae Nyth yn cynnig cymorth mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, rhydd gyngor a chymorth diduedd i'r deiliaid tai hynny sy'n ffonio llinell gymorth Nyth. Yn ail, i'r rheini sy'n byw mewn tai yn y sector preifat, p'un a ydynt yn dai sy'n eiddo iddynt neu ar rent, ac sydd ar incwm isel ac yn byw mewn eiddo â sgôr ynni E, F neu G, gall yr aelwyd gael pecyn penodol o fesurau effeithlonrwydd ynni am ddim. Caiff y rhain eu gosod, eu harchwilio a darperir ôl-ofal am 12 mis am ddim i'r deiliad tŷ.

Nod cynllun Nyth yw cynyddu sgor ynni eiddo i C lle bo'n briodol ac yn gosteffeithiol i wneud hynny, sy'n helpu i leihau biliau ynni, gwrthsefyll cynnydd mewn prisiau ynni yn y dyfodol yn well a darparu mwy o gysur a gwella iechyd a llesiant. Mae hefyd yn helpu i leihau'r tebygolrwydd y bydd deiliad tŷ yn byw mewn tlogi tanwydd yn y dyfodol, neu'n dioddef effeithiau andwyol byw mewn cartref oer.

Cafodd cynllun Nyth ei gynllunio'n benodol i gyflawni buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn y bôn ac rwy'n falch bod Nyth, ar gynifer o lefelau, yn parhau i fod yn llwyddiant. Yn ystod y saith mlynedd, mae Nyth wedi helpu dros 105,000 o aelwydydd drwy ei wasanaethau cyngor a chymorth ac mae wedi helpu 33,600 o aelwydydd drwy fesurau effeithlonrwydd ynni penodol. Mae Nyth hefyd wedi sicrhau cyllid ychwanegol o fwy nag £11m drwy'r Rhwymedigaeth Cwmniâu Ynni, sydd wedi galluogi mwy o aelwydydd incwm isel i gael budd o fesurau effeithlonrwydd ynni. Mae lleihau'r galw am ynni gan yr amgylchedd adeiledig yn rhan ganolog a chreiddiol o gynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer economi carbon isel a ffyniannus. Yn amgylcheddol, mae Nyth wedi creu 44 o swyddi gwyrdd drwy gynnig cyfleoedd i gwmiâu gwresogi ac inswleiddio bach a chanolig gael eu cyflogi fel rhan o'r cynllun, yn ogystal â darparu hyfforddiant sgiliau drwy ei raglenni prentisiaeth.

Mae'r ymchwil annibynnol gyda Phrifysgol Abertawe, lle gwerthuswyd effeithiau Nyth ar ganlyniadau iechyd wedi dangos bod iechyd a llesiant deiliaid tai wedi gwella yn dilyn gosod mesur Nyth mewn eiddo ac rwyf wedi cytuno i ariannu tair blynedd arall o ymchwil tan fis Mawrth 2020.

Dangosodd data ar tlodi tanwydd yn 2017 fod lefelau tlodi tanwydd yng Nghymru wedi gostwng o 29% i 23% a gobeithiaf y bydd y gostyngiad hwn yn parhau pan ddisgwylir cyhoeddi'r lefelau tlodi tanwydd diweddaraf ym mis Rhagfyr 2018. Bydd y data hyn yn helpu i lunio Cynllun Tlodi Tanwydd cyfredol yr wyf yn ymrwymedig i'w wneud.


Yn dilyn proses gaffael gystadleuol cafodd Nwy Prydain ei ailbenodi'n rheolwr cynllun Nyth ar gyfer contract pum mlynedd newydd Nyth a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2018. Bydd Nwy Prydain yn parhau i weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni fel ei phrif is-gontractwr. Mae rhai gwahaniaethau allweddol i gontract gwreiddiol Nyth a fydd yn atgyfnerthu'r cynllun. Ymhlith y rhain mae

pennu uchafswm lefel y cyllid a gaiff eiddo ar sail sgor ynni'r eiddo, yn ogystal ag ystyried a yw'r eiddo ar y grid neu oddi ar y grid. Bydd deiliaid tai yn cael Tystysgrif Perfformiad Ynni ar ôl i fesurau effeithlonrwydd gael eu gosod yn ogystal â phhecyn penodol o gyngor yn y cartref sydd hefyd yn cynnwys newid ymddygiad.

Rwy'n hyderus y bydd cynllun Nyth yn parhau i roi cymorth gwerthfawr i'r deiliaid tai hynny yng Nghymru sy'n ei chael hi'n anodd gwresogi eu cartrefi ac y bydd yn helpu i leihau'r nifer sydd mewn tlodi tanwydd.

Lesley Griffiths AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig



Cynnwys

- 2 Rhagair gan Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
- 5 Crynodeb Gweithredol
- 6 Targeddu a Marchnata
- 8 Partneriaethau
- 9 Cyngor a Chymorth
 - Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau
 - Gwasanaethau Gofal a Thrwsio
 - Gostyngiad Cartrefi Cynnes
 - Gwasanaethau Tân
 - Cwmnïau Dŵr
 - Gwasanaeth Cyngor ar Arbed Ynni
 - Cymru Effeithlon
- 11 Pecynnau Gwella Ynni Cartref
- 12 Nodweddion Aelwydydd ac Eiddo
- 14 Gwella Effeithlonrwydd Ynni
- 16 Buddsoddiad Llywodraeth Cymru
- 17 Cyllid ECO
- 17 Boddhad Deiliaid Tai
- 18 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- 19 Sicrhau Buddiannau Ychwanegol
- 20 Edrych i'r Dyfodol

Crynodeb Gweithredol

Yn 2017-18, buddsoddodd Llywodraeth Cymru dros £19.5 miliwn yng nghynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i wella effeithlonrwydd ynni'r stoc tai a chynorthwyo aelwydydd incwm isel ledled Cymru. Mae'r aelwydydd hynny a gaiff gymorth gan Nyth yn cael budd o well iechyd a llesiant, a biliau tanwydd is.

Yn 2017-18, rhoddodd cynllun Nyth gyngor diduedd i fwy na 15,600 o aelwydydd, ynghyd a'u cyfeirio at amrywiaeth o wasanaethau cymorth, a hynny i gyd am ddim; cyfanswm o dros 112,600 o aelwydydd ers i'r cynllun ddechrau yn 2011. Mae'r ffigur hwn 7,600 yn fwy na'r cyfanswm disgwylidig o 105,000 o aelwydydd dros saith mlynedd y cynllun. Gwnaed gwelliannau i gartrefi mwy na 4,600 o'r aelwydydd a gafodd gymorth eleni gyda pheycyn o fesurau effeithlonrwydd ynni yn y cartref am ddim. Daw hyn â chyfanswm y cartrefi anoddaf i'w gwresogi sydd wedi cael budd o welliannau effeithlonrwydd ynni i fwy na 33,900 o eiddo.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cyflawniadau cynllun Nyth o ran rhoi cyngor a chymorth i aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn 2017-18.

Yn 2017-18, roedd prif gyflawniadau cynllun Nyth fel a ganlyn:

- Cafodd dros 15,600 o aelwydydd gyngor diduedd am ddim ar arbed ynni
- Cafodd dros 4,600 o aelwydydd becyn gwelliannau ynni cartref, gan arbed £408 y flwyddyn ar eu biliau ynni ar gyfartaledd
- Cynnydd cyfartalog mewn sgôr effeithlonrwydd ynni o fwy na 37 o bwyntiau SAP
- Gostyngiad cyfartalog a fodelwyd o 16,952 o unedau ynni fesul aelwyd
- Arweiniodd Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau at gynnydd posibl o £544,500 yn y budd-daliadau a hawliwyd
- Sicrhawyd £1.56 miliwn o gyllid y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni drwy'r cynllun
- Cafodd yr holl osodiadau eu cwblhau gan osodwyr wedi'u lleoli yng Nghymru
- Cefnogodd y cynllun 44 o swyddi a phrentisiaethau yn uniongyrchol

Caiff cynllun Nyth ei reoli gan Nwy Prydain, sy'n gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, ar ran Llywodraeth Cymru.

Roedd y blaenoriaethau ar gyfer cynllun Nyth yn 2017-18 fel a ganlyn:

- Gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner i sicrhau bod y cynllun yn cyrraedd yr aelwydydd hynny sydd â'r angen mwyaf
- Datblygu gwaith ymgysylltu â'r sector iechyd er mwyn helpu i dreialu cynllun peilot cyflyrau iechyd i bobl sy'n dioddef o gyflyrau iechyd anadlol neu gylchrediad y gwaed sydd yn aml yn gwaethygu o ganlyniad i fyw mewn cartref oer neu laith
- Sicrhau cyllid ychwanegol i'r cynllun o'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni, er mwyn helpu mwy o aelwydydd incwm isel i gael budd o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref
- Parhau i gyfrannu at strategaethau ynni a thlodi Llywodraeth Cymru
- Gweithredu yn unol â'r gwerthoedd a nodwyd yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys cydweithredu, integreiddio ac atal

“Pensiynwr ydw i ac mae gen i rai problemau iechyd. Felly ar gyfer y gaeaf sydd i ddod bydd yn rhoi tawelwch meddwl i mi fy mod i'n gallu cadw fy hun yn gynnes.”

Un o drigolion Rhondda Cynon Taf

Targeddu a Marchnata

Nod gweithgarwch marchnata a chyfathrebu cynllun Nyth yw cyrraedd aelwydydd sydd angen cymorth sy'n byw mewn eiddo aneffeithlon o ran ynni.

Mae'r ymgyrch farchnata yn cynnwys amrywiaeth o hysbysebion i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun, gweithgarwch wedi'i dargeddu gan ddefnyddio'r data sydd ar gael a gweithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru, a phartneriaethau cydweithredol ag ystod eang o sefydliadau er mwyn helpu i gyrraedd aelwydydd.

Mae'r dull aml-haen yn anelu at fod mor benodol a chosteffeithiol â phosibl ac mae'n ceisio cyrraedd cwsmeriaid targed a'u helpu i ddeall y cynllun a chysylltu â thîm cyngor Nyth.


Dros y flwyddyn ddiwethaf, cyflawnodd gweithgarwch marchnata gryn gyrhaeddiad ledled Cymru, yn enwedig drwy hysbysebion digidol ac wedi'u targedu, a chafwyd mwy nag 83,000 o ymweliadau â'r wefan; y lefel uchaf ers i'r cynllun ddechrau.

Gwnaeth y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau gynnal a meithrin cydberthnasau â 298 o sefydliadau partner yn ystod y flwyddyn a chynhaliwyd dros 600 o ddigwyddiadau gan gynnwys digwyddiadau allgymorth a galw heibio gyda'r cyhoedd a chyfarfodydd datblygu partner. Drwy'r cydberthnasau hyn, gall y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau godi ymwybyddiaeth o'r cynllun a chyflawni gweithgareddau wedi'u targedu mewn llawer o rannau mwyaf difreintiedig Cymru.


Mae'r gweithgareddau hyn yn ffurfio ymgyrch gydlynus i gyrraedd aelwydydd cymwys yn uniongyrchol neu drwy wahanol sefydliadau partner sy'n helpu'r cynllun i gyrraedd y rheini sydd â'r angen mwyaf.

Dengys y siart isod ddadansoddiad o ymholiadau cychwynnol yn ôl ardal awdurdod lleol.

Ymholiadau yn ôl Awdurdod Lleol



Dengys y siart isod y sianel farchnata a wnaeth esgor ar ymholiadau cychwynnol i Nyth. Ategwyd y gweithgareddau wedi'u targedu hyn gan amrywiaeth o weithgareddau codi ymwybyddiaeth gan gynnwys sylw yn y wasg, hysbysebion radio, cyfryngau cymdeithasol a deunydd hyrwyddo digidol. Cyfrannodd y rhain at 47% o ymholiadau cychwynnol yn sgil 'argymhelliad personol' a 10% drwy'r wefan neu weithgarwch yn y cyfryngau. Arweiniodd y gweithgareddau a gyflawnwyd gan y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau a gwaith y sefydliadau partner yn uniongyrchol at 20% o'r holl ymholiadau yn ystod y flwyddyn a deilliodd 25% o ohebiaeth gan bartneriaid yn y post.



- 47% Argymhelliad personol
- 25% Gohebiaeth partneriaid
- 18% Gweithgarwch partneriaid
- 7% Gwefan ac e-bost
- 3% Y Wasg a Radio
- 0% Ceisiadau Ffonio'n Ôl ESAS

“Roedd Nyth yn ddefnyddiol iawn – nid dim ond y gwaith gosod ond hefyd drwy fy rhoi mewn cysylltiad â chymorth arall.”


Un o drigolion Abertawe

Tlodi Tanwydd

Mae lefel y tlodi tanwydd datganedig gan aelwydydd yn ystod yr ymholiad cychwynnol yn dangos bod 79% o'r deiliaid tai a gysylltodd â Nyth yn byw mewn tlodi tanwydd (48% mewn tlodi tanwydd a 31% mewn tlodi tanwydd difrifol), sydd yn gyson â blynyddoedd blaenorol.

Ystyrir bod deiliaid tai sydd angen gwario mwy na 10% o'u hincwm ar gostau ynni yn byw mewn tlodi tanwydd a bod aelwydydd sy'n gwario mwy nag 20% o'u hincwm yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol.

Gofynnir i ddeiliaid tai sy'n cysylltu â Nyth nodi eu hincwm pan fyddant yn gwneud eu cais er mwyn i'r data gael eu defnyddio ochr yn ochr â chostau rhedeg a fodelwyd ar gyfer eu haelwyd¹.



Dylid trin y ffigurau hyn â gofal gan mai dim ond 62% o'r deiliaid tai a gysylltodd â Nyth yn 2017-18 a gytunodd i roi manylion ynghylch eu hincwm. Hefyd, lle rhoddwyd incwm y cartref, ni chynhaliwyd proses ddilysu i gadarnhau bod yr incwm a nodwyd yn gywir.

1. Defnyddir data a fodelwyd yn hytrach na gwariant gwirioneddol ar gyfer costau rhedeg yr aelwyd gan fod llawer o gwsmeriaid yn diffodd eu gwres er mwyn rheoli eu costau ynni.

Partneriaethau

Mae Rheolwyr Datblygu Partneriaethau Nyth yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau i gyfleu buddiannau'r cynllun a chyrraedd aelwydydd sydd angen cymorth.

Mae sefydliadau partner Nyth yn darparu cyswllt hollbwysig i gartrefi sydd angen cymorth sydd fel arfer wedi'u hallgáu'n gymdeithasol neu sy'n wynebu llawer o heriau. Mae ein dull ar y cyd o weithredu a'r amrywiaeth o wasanaethau cymorth a chyfeirio sydd ar gael drwy gynllun Nyth, yn cyfrannu at gymorth amlasiantaethol ar gyfer llawer o gartrefi yng Nghymru.

Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau yn gweithio gydag ystod eang o sefydliadau gan gynnwys elusennau cenedlaethol, byrddau iechyd rhanbarthol, awdurdodau lleol a chymdeithasau cymunedol. Er enghraifft:

- Awdurdodau Lleol (e.e. swyddogion tai, cynhwysiant ariannol ac ynni)
- Pobl sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol (e.e. Cymdeithas y Gofalwyr, Cymunedau yn Gyntaf a Banciau Bwyd)
- Pobl Hŷn (e.e. Age Cymru, Gofal a Thrawsio ac Age Connects)
- Y Sector Iechyd (e.e. Byrddau Iechyd Lleol, gwasanaethau iechyd cymunedol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru)
- Pobl â salwch hirdymor (e.e. Macmillan, Cymdeithas MS, Mencap, Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, Cyfeillion Dementia)
- Pobl sy'n gwella ar ôl salwch meddwl (e.e. Hafal, Gofal, a Mental Health Matters Wales)
- Teuluoedd â Phlant Ifanc (e.e. Barnados, Dechrau'n Deg a chanolfannau teuluoedd)
- Pobl Ddi-waith (e.e. Canolfannau Byd Gwaith ledled Cymru)
- Gwasanaethau cynghori (e.e. Cyngor ar Bopeth, y Gwasanaeth Cynghori Ariannol a Pennysmart)

Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau yn cwmpasu Cymru gyfan ac yn awyddus i feithrin partneriaethau a fydd yn helpu i gyrraedd pobl sydd angen cymorth a chreu ymwybyddiaeth o gynllun Nyth. Maent yn darparu gwasanaethau galw heibio, cyfarfodydd, sgysiau a digwyddiadau. Yn ystod 2017-18, aeth y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau i bron 650 o ddigwyddiadau gan gyrraedd mwy na 10,000 o gyfranogwyr.

Yn ystod 2017-18, cynhaliwyd cynllun peilot i brofi meini prawf cymhwysedd seiliedig ar iechyd. Gweithiodd y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau gyda gweithwyr iechyd proffesiynol, gan feithrin cydberthnasau â byrddau iechyd lleol, meddygfeydd, ymwelwyr iechyd a thimau rhyddhau cleifion yn y gymuned. Rôl y gweithwyr iechyd proffesiynol oedd nodi

pobl â chyflwr cardiofasgwlaidd neu anadlol cronig oedd yn byw ar incwm isel ac mewn cartref aneffeithlon o ran ynni a'u hatgyfeirio at gynllun Nyth.

Adeiladodd y cynllun peilot ar ymchwil wedi'i chomisiynu gan Lywodraeth Cymru a nododd fod y mesurau effeithlonrwydd ynni a osodwyd gan Nyth yn helpu i atal cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â'r oerfel gyda lleihad uniongyrchol yn y defnydd o wasanaethau gofal iechyd. Nid oedd canfyddiadau'r cynllun peilot cychwynnol yn ddigon cadarn ynghylch y llwybr atgyfeirio iechyd gorau i'w gyflwyno ledled Cymru fel y gobeithiwyd. Mae cynllun peilot 12 mis arall ar waith yn 2018-19 er mwyn profi prosesau atgyfeirio iechyd yn ystod y pwysau tymhorol ar y GIG.

Mae'r enghreifftiau canlynol o weithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn llwyddiannus yn dangos yr amrywiaeth o bartneriaid a sectorau y mae Nyth yn ymwneud â nhw:

Awdurdodau Lleol

Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau wedi meithrin cydberthnasau ag awdurdodau lleol ledled Cymru. Gan weithio mewn partneriaeth, gall Nyth gyrraedd aelwydydd sydd angen cymorth a chynnal ymgyrchoedd wedi'u targedu a hyrwyddo'r cynllun gydag awdurdodau lleol. Mewn sawl achos, mae awdurdodau lleol yn cynnwys Nyth ar eu gwefannau a thrwy wasanaethau cynghori. Maent hefyd yn cynnal ymgyrchoedd uniongyrchol drwy'r post ac yn cynnal digwyddiadau allgymorth a galw heibio mewn llyfrgelloedd ac adeiladau dinesig.

Iechyd – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Cafodd partneriaeth â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ei sefydlu fel rhan o'r cynllun peilot meini prawf iechyd. Cynhaliodd y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau sesiynau briffio gyda staff timau nyrsio cymunedol ac ardal ledled y sir a gwnaethant weithio gyda Gwasanaeth Anadlol Powys er mwyn rhannu gwybodaeth am y cynllun peilot iechyd. Hefyd, ymwelwyd â sawl ysbyty ym Mhowys er mwyn cynnal sesiynau briffio i staff a threfnwyd stondinau gwybodaeth mewn cynteddau. Cefnogwyd y gweithgarwch gan dîm cyfathrebu'r bwrdd iechyd ac anfonwyd e-bost at bob aelod o staff ym Mhowys er mwyn tynnu sylw at fuddiannau cynllun Nyth.

Gwasanaethau Cynghori – Cyngor ar Bopeth Conwy

Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau yn gweithio gyda

chanolfannau Cyngor ar Bopeth ledled Cymru gan gydnabod y rôl bwysig y maent yn ei chwarae wrth gefnogi cartrefi. Mae Cyngor ar Bopeth yn darparu cyngor dros y ffôn, gwasanaethau ymweld â chartrefi a digwyddiadau wyneb yn wyneb yn y gymuned.

Yn ystod y flwyddyn, gweithiodd Nyth gyda Chyngor ar Bopeth Conwy a chefnogwyd diwrnodau 'Drws Agored' y ganolfan lle gall aelodau o'r cyhoedd alw heibio am amrywiaeth o gyngor a chymorth. Cynhelir y digwyddiadau mewn canolfannau cymunedol fel llyfrgelloedd a neuaddau cymuned.

Cyngor a Chymorth

Yn 2017-18, rhoddodd Nyth gyngor wedi'i deilwra ac atgyfeiriadau at wasanaethau trydydd parti i fwy na 15,600 o aelwydydd.

Mae fîm cyngor Nyth yn casglu gwybodaeth gan bob cwsmer i nodi'r cyngor a chymorth mwyaf priodol i'w darparu. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar arbed ynni ac effeithlonrwydd dŵr, pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim, a chyfeirio ac atgyfeirio at amrywiaeth o wasanaethau cymorth.

Cymorth gan Drydydd Partiön

Yn 2017-18, cafodd dros 9,700 o aelwydydd eu hatgyfeirio at un neu fwy o wasanaethau trydydd parti, neu argymhellwyd y dylent gysylltu â gwasanaethau o'r fath. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys y canlynol:

- **Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau** – mae Canolfan Gyngori Riverside yn darparu gwasanaeth adolygu i gwsmeriaid Nyth i'w helpu i wneud y mwyaf o'u hincwm
- **Cyngor ar reoli arian** – mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn rhoi cyngor annibynnol i gwsmeriaid ar reoli dyled ac ymdrin ag incwm a thaliadau'n fwy effeithiol
- **Gwasanaethau Gofal a Thrsio** – mae Gofal a Thrsio yn darparu gwasanaeth tasgmon, gwasanaeth gweithiwr achos, help gyda grantiau ac offer gwresogi dros dro i gwsmeriaid cymwys
- **Cyngor ar dariffau ynni** - mae Simply Switch yn rhoi cyngor annibynnol i gwsmeriaid ar y tariff a'r cyflenwr mwyaf effeithiol ar gyfer amgylchiadau'r cwsmer
- **Gostyngiad Cartrefi Cynnes** – mae'r prif gyflenwyr ynni yn rhoi gostyngiad oddi ar filiau ynni cwsmeriaid cymwys
- **Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth** – caiff cwsmeriaid cymwys eu hatgyfeirio at Western Power Distribution i gael cymorth ychwanegol os bydd toriad yn y cyflenwad trydan
- **Gwasanaethau Tân ac Achub** – gall aelwydydd sy'n agored i niwed gael gwiriad diogelwch tân ar gyfer y cartref drwy Wasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru
- **Cynlluniau fforddiadwyedd dŵr** – mae Nyth yn atgyfeirio cwsmeriaid at amrywiaeth o gynlluniau fforddiadwyedd a


Trydydd Sector – Rhwydweithiau Cymunedol

Nod rhwydweithiau cymunedol, a sefydlir mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a chynghorau cymuned, yw cynnig mynediad i ystod eang o wasanaethau, cymorth a chefnogaeth yn eu sir. Mae Nyth yn gweithio gyda sefydliadau cymunedol a rhwydweithiau ledled Cymru gan gynnwys, dros y flwyddyn ddiwethaf, Asiantiaid Cymunedol yn Wrecsam a Chysylltwyr Cymunedol Powys, sef prosiect wedi'i gyflwyno gan Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys. Yn y ddau achos, gwnaeth Rheolwyr Datblygu Partneriaethau frifio aelodau o staff ar y cynllun a mynychwyd digwyddiadau allgymorth gyda'r cyhoedd.

weithredir gan Dŵr Cymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy

- **Gwasanaethau cyngori eraill** – caiff cwsmeriaid nad ydynt yn gymwys i gael un o becynnau gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref Nyth eu cyfeirio at sefydliadau priodol eraill fel y Gwasanaeth Cyngor ar Arbed Ynni i gael rhagor o gymorth

Aelwydydd sy'n cael Atgyfeiriad i Drydydd Parti/Argymhelliad



Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau

Yn ystod y flwyddyn, atgyfeiriwyd dros 1,425 o aelwydydd i gael Gwiriad Hawl i Fudd-daliadau a nodwyd bod 373 o'r aelwydydd hynny yn gymwys i gael budd-daliadau newydd neu ychwanegol gwerth £1,460 fesul aelwyd, ar gyfartaledd. Mae hyn yn cyfateb i gynydd posibl o £544,500 yn y budd-daliadau y manteisiwyd arnynt eleni a thros £3.2 miliwn yn y saith mlynedd ers sefydlu cynllun Nyth.

Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau	
Nifer y deiliaid tai a atgyfeiriwyd	1,425
Nifer y deiliaid tai a hawliodd fudd-daliadau newydd/ychwanegol	373
Cynnydd cyfartalog yn yr incwm blynyddol	£1,460

Gwasanaethau Gofal a Thrwsio

Mae asiantaethau Gofal a Thrwsio yn darparu amrywiaeth o wasanaethau er mwyn helpu pobl hŷn i fyw mewn cartrefi diogel sy'n briodol i'w hanghenion. Gwnaeth Nyth gyfeirio ac atgyfeirio 1,362 o gartrefi at asiantaethau Gofal a Thrwsio yn 2017-18.

Gwasanaethau Gofal a Thrwsio	
Nifer y deiliaid tai a atgyfeiriwyd	1,362
Nifer y deiliaid tai a ddefnyddiodd y gwasanaeth Tasgmon	40
Nifer y deiliaid tai a ddefnyddiodd y gwasanaeth offer gwresogi dros dro	1
Nifer y deiliaid tai a gafodd Cymorth Grant	1
Nifer y deiliaid tai a ddefnyddiodd y gwasanaeth Gweithiwr Achos	137
Nifer y deiliaid tai a gafodd gyngor yn unig	11

Gostyngiad Cartrefi Cynnes

Cafodd dros 5,000 o gwsmeriaid eu hatgyfeirio at eu cyflenwr ynni i gael y Gostyngiad Cartrefi Cynnes, o gymharu â 4,270 yn 2016-17. Mae Nyth wedi cael cadarnhad bod 419 o gwsmeriaid yn gymwys i gael y gostyngiad, sydd wedi arbed cyfanswm o £58,660.

Warm Home Discount	
Nifer y deiliaid tai a atgyfeiriwyd	5,047
Nifer y deiliaid tai a gafodd y Gostyngiad Cartrefi Cynnes	419
Gwerth y Gostyngiad Cartrefi Cynnes	£58,660

Gwasanaethau Tân ac Achub

Atgyfeiriodd Nyth 1,702 o gwsmeriaid at Wasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, a chafodd 576 ohonynt wiriad diogelwch tân ar gyfer y cartref, o gymharu â 358 yn 2016-17.

Gwasanaethau Tân	
Nifer y deiliaid tai a atgyfeiriwyd	1,702
Nifer y deiliaid tai a gafodd Adroddiad diogelwch yn y cartref	576

Cwmnïau Dŵr

Mae Nyth yn atgyfeirio cwsmeriaid at gynlluniau fforddiadwyedd Dŵr Cymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy gan gynnwys HelpU, Dŵr Uniongyrchol, Cronfa Cymorth i Gwsmeriaid a Water Sure.

Yn ystod 2017-18, atgyfeiriwyd 2,532 o gwsmeriaid gyda 473 yn cael budd o gymorth a gostyngiad ôl-ddyledion, ac arbedion posibl o dros £96,000. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol o gymharu â 2016-17 pan nodwyd bod 77 o gwsmeriaid yn gymwys i gael cymorth.

Cwmnïau Dŵr	
Nifer yr aelwydydd a atgyfeiriwyd	2,532
Cwsmeriaid yn cael budd o HelpU	457
Cwsmeriaid yn cael budd o Dŵr Uniongyrchol	2
Cwsmeriaid yn cael budd o'r Gronfa Cymorth i Gwsmeriaid	1
Cwsmeriaid yn cael budd o Water Sure	13

Gwasanaethau Cyngori Eraill

Cyfeiriwyd cwsmeriaid nad oeddent yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Nyth ond a oedd yn debygol o fod yn gymwys ar gyfer ECO at y Gwasanaeth Cyngor ar Arbed Ynni (ESAS). Atgyfeiriwyd y cwsmeriaid hynny nad oeddent yn cael budd-daliadau at Cymru Effeithlon i gael rhagor o gymorth. Yn ystod y flwyddyn, atgyfeiriwyd 1,384 o aelwydydd.

Aelwydydd Nyth a Atgyfeiriwyd at y Gwasanaeth Cyngor ar Arbed Ynni	
Number of Household Referrals	1,384

Pecynnau Gwella Ynni Cartref

Cyflawnir nod Llywodraeth Cymru i godi aelwydydd allan o dlodi tanwydd drwy ariannu gosodiadau gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi sy'n gwella'r eiddo ac yn lleihau biliau ynni tanwydd.

Caiff cwsmeriaid sy'n cysylltu â Nyth i gael cyngor a chymorth eu hasesu i weld a ydynt yn gymwys i gael pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim a all gynnwys boeler newydd, system gwres canolog a / neu ddeunydd inswleiddio.

Y meini prawf ar gyfer gwelliannau cartref yw bod aelod o'r aelwyd yn cael budd-dâl sy'n dibynnu ar brawf modd a bod y cartref yn eiddo preifat neu'n cael ei rentu â sgôr ynni ddangosol o E, F neu G.

Gall aelwydydd sy'n byw mewn eiddo a rentir gael budd o'r ystod lawn o gymorth sydd ar gael drwy'r cynllun, yn amodol ar landlordiaid preifat yn cofrestru â Rhentu Doeth Cymru.


Bydd asesydd cwbl gymwys yn ymweld â chartref y cwsmer i gadarnhau a yw'n gymwys, yn cwblhau asesiad o'r tŷ cyfan ac yn nodi'r mesurau mwyaf priodol a chosteffeithiol ar gyfer yr eiddo a'r cwsmer. Mae tîm Nyth yn sicrhau bod yr holl ganiatadau a chydysniadau gofynnol (landlordiaid, cynllunio ac ati) a gofynion trydydd partïon (cysylltiadau nwy, cael gwared ar asbestos ac ati) yn cael eu cwblhau cyn cytuno ar y dyddiadau gosod â'r cwsmer.

Caiff yr holl wasanaethau gosod eu darparu gan rwydwaith o osodwyr yng Nghymru, o dan oruchwyliaeth a rheolaeth tîm Nyth. Cynhelir archwiliad o'r gwaith unwaith y bydd tîm Nyth wedi derbyn cadarnhad bod y pecyn o fesurau wedi'i osod. Os bydd arolygydd Nyth yn nodi unrhyw ddiffygion yn y gwaith, bydd yn sicrhau bod unrhyw waith adferol sydd ei angen yn cael ei gwblhau'n gyflym ac yn effeithiol.

Caiff pecynnau gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref Nyth eu cynllunio ar gyfer eiddo unigol felly nid oes pecyn safonol

o fesurau, ond gallent gynnwys boeler newydd, system gwres canolog, inswleiddio'r atig neu inswleiddio walïau ceudod a gall rhai ohonynt gynnwys technolegau mwy diweddar fel pypïau gwres ffynhonnell aer ac inswleiddio walïau allanol.

Systemau gwres canolog yw'r prif waith a wneir gan gynllun Nyth o hyd. Mae'r gosodiadau hyn yn cynnwys sawl mesur e.e. boeler, rheiddiaduron, thermostat ar gyfer ystafelloedd, rheolyddion gwres, falfïau rheiddiaduron thermostatig a phibellau lle y bo angen.



- 92% Gosod Gwres Canolog
- 8% Insweiddio Safonol
- 0% Insweiddio Ychwanegol

“Rwy'n ddiolchgar iawn i Lywodraeth Cymru am gynnig pecyn mor hael.”

Un o drigolion Casnewydd

Nodweddion Aelwydydd ac Eiddo


Nod Nyth yw codi pobl allan o dlodi tanwydd lle y bo'n bosibl.

Ar adeg gwneud cais, gofynnir i ddeiliaid tai nodi eu hincwm a gaiff ei asesu yn erbyn costau rhedeg wedi'u modelu² er mwyn amcangyfrif lefelau tlodi tanwydd mewn aelwydydd a gefnogir gan y cynllun.


Mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad o ddeiliadaeth ar gyfer aelwydydd a gafodd becyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref; roedd 72% yn eiddo i berchen-feddianwyr a 28% wedi'u rhentu'n breifat.

Ystyrir bod aelwydydd sy'n gwario mwy na 10% o'u hincwm ar filiau ynni yn byw mewn tlodi tanwydd ac ystyrir bod aelwydydd sy'n gwario mwy nag 20% yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol.

Roedd 47.2% o aelwydydd a gysylltodd â Nyth yn byw mewn tlodi tanwydd cyn cael gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref. Mae hyn yn cynnwys 11.8% o aelwydydd a oedd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol.



- 52.8% Ddim mewn Tlodi Tanwydd
- 35.4% Mewn Tlodi Tanwydd
- 11.8% Mewn Tlodi Tanwydd Difrifol



- 72% Perchennog
- 28% Rhentu'n Breifat

“Roedd hi'n ganol gaeaf ac roeddwn i wedi bod heb wres am chwe wythnos, felly gallwch chi ddychmygu'r rhyddhad roedden ni'n ei deimlo. Diben y cynllun yw helpu pobl pan fydd arnynt ei angen fwyaf.”


Un o drigolion Caerdydd



² Defnyddir data a fodelwyd yn hytrach na gwariant gwirioneddol ar gyfer costau rhedeg yr aelwyd gan fod llawer o gwsmeriaid yn diffodd eu gwres er mwyn rheoli eu costau ynni.

Mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad o'r deiliaid tai a gafodd becyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn ôl eu hoedran. Roedd dros hanner y deiliaid tai o oedran gweithio (53% rhwng 24 a 59 oed) sydd ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol (50.2% yn 2016-17).



Yn ystod y flwyddyn, roedd gostyngiad bach yn y rhai rhwng 60 a 69 oed (17.4% o gymharu â 19% yn 2016-17) a thros 70 oed (27.6% o gymharu â 29.3% yn 2016-17).





Dangosir dadansoddiad o ddsbarthiad trefol a gwledig³ cwsmeriaid a gafodd becyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn y siart isod. Nodir bod 66% o'r aelwydydd yn byw mewn ardaloedd trefol a 34% yn byw mewn ardaloedd gwledig. Mae'r canrannau hyn yn adlewyrchu dosbarthiad y boblogaeth yng Nghymru ac maent yr un peth â'r rhai yn 2016-17.



Nid oedd 22.8% o gwsmeriaid wedi'u cysylltu â'r grid nwy cyn i fesurau gael eu gosod o dan y cynllun, sy'n ostyngiad bach o gymharu â 23.8% yn 2016-17, fel y dangosir yn y siart isod.



Dangosir dadansoddiad o aelwydydd sydd wedi cael pecyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn ôl math o eiddo yn y graff isod. Eiddo teras (canol a phen teras) yw'r math o eiddo a gaiff ei drin amlaf o dan y cynllun o hyd, gan gyfrif am 39.2% o'r holl waith gosod (39.8% yn 2016-17). Yn ystod 2017-18 gwelwyd cynnydd bach yn nifer y byngalos (16.9% o gymharu ag 16% yn 2016-17) a gostyngiad bach yn nifer y tai semi (27.6% o gymharu â 29% yn 2016-17) a thai ar wahân (8.5% o gymharu â 9% yn 2016-17).



Gwella effeithlonrwydd ynni

Mae gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref Nyth wedi sicrhau arbedion amcangyfrifedig o £408 y flwyddyn fesul aelwyd ar filiau ynni ar gyfartaledd, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i aelwydydd mewn tloedi tanwydd.





Mae'r siartiau hyn yn dangos dadansoddiad fesul band SAP ar gyfer aelwydydd cyn ac ar ôl iddynt gael pecynnau gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref. Roedd pob eiddo lle y gosodwyd mesurau yn aelwyd effeithlon iawn o ran ynni – sgôr E (8.2%), F (45%) neu G (46.8%). Mae'r ffigurau hyn yn dangos cynnydd yng nghanran yr eiddo â sgôr G (43.3% yn 2016-17), sef yr eiddo mwyaf aneffeithlon o ran ynni.

Ar ôl gosod y pecyn o welliannau ynni cartref, cynyddodd sgôr 79% o eiddo i B i D a chynyddodd sgôr 18.9% o eiddo arall i E a 2% i F. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r eiddo a gafodd welliannau yn parhau i fod â sgôr E i G am na fu'n bosibl dangos y byddai'r mesurau mwy cynhwysfawr a oedd yn ofynnol yn sicrhau gwerth am arian. Yn 2017-18, nid oedd yr un eiddo wedi aros ym Mand G.

Mae cynllun Nyth yn cyfrifo effeithiau gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar gartrefi gan ddefnyddio sgôr RdSAP⁴. Mae'r feddalwedd yn mesur sgôr SAP cyn ac ar ôl i fesurau addas gael eu gosod. Y nod yw gosod pecyn o fesurau er mwyn cynyddu sgôr ynni eiddo tuag at sgôr SAP o C lle y bo'n bosibl, pan fo'n gosteffeithiol i wneud hynny. Caiff y mesurau gwirioneddol a osodir eu hailfodelu er mwyn ystyried unrhyw newidiadau i'r pecyn gwreiddiol o ganlyniad i broblemau technegol neu am fod cwsmeriaid wedi newid eu meddwl.

Mae aseswr Nyth yn nodi sgôr SAP gyfredol yr eiddo a'r sgôr SAP bosibl pe bai pecyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn cael ei osod. Mae eiddo band A yn defnyddio ynni'n effeithlon iawn a'r rhain fydd â'r costau rhedeg isaf; mae gan eiddo band G sgôr effeithlonrwydd ynni wael sy'n golygu y bydd yn costio mwy i'w gwresogi a'u goleuo i'r un safon.

Mae budd-daliadau yn seiliedig ar ganlyniadau a fodelwyd a bydd y gostyngiadau a'r arbedion gwirioneddol yn dibynnu ar ymddygiad y cwsmer unigol. Yn aml, nid yw aelwydydd mewn tloedi tanwydd yn gwresogi eu cartrefi yn effeithiol ac felly, mewn rhai achosion, bydd y buddiannau i'r cwsmer yn cynnwys eiddo mwy cyfforddus a gwell lles wrth i'r cartref gael ei wresogi'n fwy effeithiol, yn hytrach na gostyngiad mewn biliau tanwydd. Mae'r siart yn dangos dadansoddiad



⁴ RdSAP and SAP – Y Weithdrefn Asesu Safonol yw methodoleg Llywodraeth y DU ar gyfer asesu a chymharu perfformiad ynni a pherfformiad amgylcheddol anheddau. Cyflwynwyd SAP data gostyngol (RdSAP) yn ddiweddarach fel ffordd fwy costeffeithiol o asesu anheddau a oedd yn bodoli eisoes.

o arbedion ynni a fodelwyd fesul aelwyd lle y gosodir mesurau yn ôl awdurdod lleol, gydag arbediad cyfartalog amcangyfrifedig o £405 y flwyddyn neu 16,952 megajoule y flwyddyn (i fyny o 15,521 yn 2016-17).

Mae hefyd yn dangos dadansoddiad yn ôl gostyngiadau

mewn allyriadau carbon drwy gydol oes yr aelwydydd sy'n cael pecyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref. Yn ôl yr hyn a fodelwyd, bydd cyfanswm yr allyriadau oes yn gostwng 256k tCO gan amrywio o 2.5k tCO yn Sir Fynwy i dros 29k tCO yn Rhondda Cynon Taf a Sir Gaerfyrddin.

Awdurdod Lleol	Cyfanswm yr Arbedion CO2 Oes Gyfan (tCO)	Arbedion Cyfartalog o ran y Defnydd o Ynni (megajoules)	Arbedion Blynyddol Cyfartalog o ran Cost Tanwydd
Abertawe	15896	19892	£370
Blaenau Gwent	9427	16890	£400
Bro Morgannwg	5571	15692	£358
Caerdydd	13998	15790	£314
Caerffili	14326	17391	£386
Casnewydd	7494	18296	£358
Castell-nedd Port Talbot	14152	19679	£365
Ceredigion	10234	17977	£509
Conwy	12343	14692	£395
Gwynedd	12422	15983	£488
Merthyr Tudful	5876	16992	£400
Pen-y-bont ar Ogwr	12886	16490	£332
Powys	11762	17388	£447
Rhondda Cynon Taf	29355	18159	£357
Sir Benfro	12918	16791	£439
Sir Ddinbych	9454	14287	£494
Sir Fynwy	2561	14982	£540
Sir Gaerfyrddin	29166	19884	£435
Sir y Fflint	7537	15899	£395
Torfaen	4649	15895	£333
Wrecsam	6626	17196	£394
Ynys Môn	8006	16693	£470
Cyfanswm	256189	16952	£408

“O'r alwad ffôn gyntaf hyd adeg gosod y system newydd roedd pawb mor gymwynasgar a chyfeillgar ac o fewn wythnos roedd y gwaith wedi'i gwblhau. Mae'n llawer cynhesach ac yn llawer rhatach i'w redeg na'n hen system”

Un o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr




Buddsoddiad Llywodraeth Cymru

Yn ystod 2017-18, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £19.5 miliwn drwy fesurau Nyth.


Gosodiadau yn ôl Awdurdod Lleol

Mae'r graff yn dangos canran y gwaith gosod a gwblhawyd yn ôl ardal awdurdod lleol.



Gwariant yn ôl Awdurdod Lleol

Mae'r siart hon yn dangos y gwariant cyfartalog ar welliannau effeithlonwydd ynni cartref yn ôl awdurdod lleol.



Cyllid ECO

Mae'r Rhwymedigaeth Cwmniau Ynni (ECO) yn rhan o rwymedigaethau effeithlonrwydd ynni domestig Llywodraeth y DU ar gyfer cyflenwyr ynni mawr.

Parhaodd Nyth a Llywodraeth Cymru i gydweithio'n agos er mwyn sicrhau'r cyllid ECO mwyaf posibl ar gyfer Nyth. Yn ystod 2017-18, llwyddodd Nyth i sicrhau £1.6 miliwn o gyllid ECO i Gymru, gan alluogi Nyth i gynorthwyo mwy o aelwydydd a chynyddu cyfanswm yr arbedion cyllid,



tanwydd a charbon i aelwydydd ledled Cymru. Mae'r cyllid a sicrhawyd gan ECO yn gyfuniad o'r Rhwymedigaeth Lleihau Costau Gwresogi (HHCRO) a'r Rhwymedigaeth Lleihau Allyriadau Carbon (CERO).

Bodddhad Deiliaid Tai

Mae bodddhad cwsmeriaid â Nyth wedi bod yn gyson uchel drwy gydol oes y cynllun. Yn 2017-18, nododd 98% o gwsmeriaid eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau cynghori a gwaith gosod a ddarparwyd gan Nyth.

Caiff pob deiliad tŷ sy'n derbyn cyngor gan y cynllun arolwg drwy'r post a gofynnir iddo sgorio'r gwasanaeth yn ôl ei foddhad. Caiff bodddhad deiliaid tai ei gofnodi a'i reoli, gan gynnwys unrhyw gwynion sy'n ymwneud â phob cam o daith y cwsmer.

Mae'r siartiau isod yn dangos bod nifer y cwynion a gafwyd yn cynrychioli dim ond 2.2% o'r holl gwsmeriaid a gafodd becyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref a bod y mwyafrif o gwsmeriaid (97.8%) yn fodlon neu'n fodlon iawn ar y gwasanaeth gosod a ddarparwyd.



97.8% Na 2.2% Ie

89.3% Bodlon Iawn
8.7% Bodlon
2% Ddim yn Fodlon

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Nod cynllun Nyth yw cyrraedd pob rhan o gymdeithas er mwyn sicrhau bod pob aelwyd sydd angen cymorth yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael a'u bod yn gallu defnyddio'r cynllun.

Mae gwaith y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau, yn arbennig, yn gosod y cynllun ochr yn ochr ag amrywiaeth o bartneriaid sy'n cynnig cymorth hanfodol i aelwydydd ledled Cymru. Mae'r cyngor a'r gwasanaeth cyfeirio sydd ar gael gan Nyth yn aml yn cyfrannu at ddatrysiad aml-asiantaeth i deuluoedd sy'n wynebu sawl her.

Mae tîm Nyth yn gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol, timau rhyddhau a meddygyfeydd ac ysbytai cymuned. Mae Rheolwyr Datblygu Partneriaethau Nyth wedi datblygu partneriaethau cyfredol a sefydlu partneriaethau newydd o fewn y sector iechyd gan gydnabod yr effaith y gall cartref oer ei chael ar iechyd a llesiant person.

Gwnaeth Rheolwyr Datblygu Partneriaethau Nyth feithrin cydberthnasau â nifer o sefydliadau yn y trydydd sector sy'n gweithio gyda phobl ag anghenion cyfathrebu penodol, gan gynnwys Anabledd Dysgu Cymru, Deafblind, RNIB, a Grŵp Pobl Trwm eu Clyw Abertawe.

Hefyd, gweithiodd y tîm gydag elusennau sy'n cynorthwyo pobl â salwch hirdymor, gan gynnwys Macmillan, Cymdeithas MS, Mencap, Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, a Chyfeillion Dementia, gan gydnabod yr anawsterau ariannol y gall pobl â chyflyrau penodol eu hwynebu.

Hefyd, bu mwy o ymgysylltu ag elusennau sy'n gweithio gyda phobl sy'n gwella ar ôl salwch meddwl, gan gynnwys Hafal, Gofal, a Mental Health Matters Wales.

Mae Nyth yn parhau i gynnal cydberthnasau â sefydliadau sy'n cynorthwyo pobl hyn yng Nghymru. Gweithiodd y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau yn agos gydag asiantaethau Age Cymru ac Age Connects a chyda Gofal a Thrsio lle mae proses atgyfeirio ddwy ffordd yn sicrhau bod deiliaid tai yn cael gafael ar y gwasanaethau penodol a ddarperir gan y ddau sefydliad.

Ynghyd â'r gweithgareddau ymgysylltu mewn partneriaeth, mae gwybodaeth am gynllun Nyth ar gael mewn nifer o fformatau gwahanol gan gynnwys fformat hawdd ei ddarllen, braille, sain, print bras a digidol ac mewn sawl iaith. Cefnogir yr adnoddau hyn gan Language Line er mwyn cynnig gwasanaeth dehongli i'r cwsmeriaid hynny lle nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf a thrwy wasanaeth minicom neu wasanaeth Next Generation Text i gwsmeriaid sy'n fyddar neu â nam ar eu lleferydd, er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu defnyddio'r cynllun.

Mae'r gweithgareddau hyn yn tanlinellu ymrwymiad cynllun Nyth i weithredu o fewn y set o werthoedd a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys cydweithredu, integreiddio ac atal.



“Nid wyf wedi cael gwres na dŵr poeth iawn ers dwy flynedd. Mae'r cynllun hwn wedi cael effaith gadarnhaol enfawr ar fy mywyd yn barod. Mae'r gwres yn helpu i leddfu'r boen rwy'n ei gael yn fy nghyhyrau a'm cymalau a all frifo gymaint fel na allaf symud.”

Un o drigolion Caerdydd

Sicrhau Buddiannau Ychwanegol

Fel cyflogwr yng Nghymru, mae tîm Nyth yn ceisio cefnogi'r cymunedau y mae'n gweithio ynddynt ac ysbrydoli pobl ifanc gydag amrywiaeth o fentrau cyflogaeth.

Mae Buddiannau Cymunedol yn cyflawni canlyniadau yn ychwanegol at ddiben craidd y contract. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni buddiannau cymunedol drwy weithgarwch caffael wedi'i gynllunio i sicrhau bod materion cymdeithasol ac economaidd ehangach yn cael eu hystyried wrth wario arian cyhoeddus. Y bwriad yw cyflawni'r gwerth gorau am arian yn yr ystyr ehangaf drwy dargedu cyfleoedd i recriwtio, hyfforddi ac addysgu'r sawl sydd bellaf o'r farchnad swyddi, datblygu cadwyni cyflenwi lleol, a chefnogi gweithgarwch addysgol ac adfywio cymunedau.

Gall Buddiannau Cymunedol gynnwys mesurau amgylcheddol sy'n ymwneud ag ynni a gwastraff/ailgylchu, agweddau cymdeithasol fel defnyddio pobl leol ddi-waith fel rhan o'r gweithlu, darparu hyfforddiant i brentisiaethau, ac economaidd, fel defnyddio gwefan GwerthwchiCymru i hysbysebu cyfleoedd haen 1 i BBaCh lleol.

Gall Buddiannau Cymunedol gynnwys cyflawni'r canlynol:

- Mentrau Recriwtio a Hyfforddi wedi'u Targedu
- Mentrau Cymorth Addysgol
- Hyfforddiant Galwedigaethol
- Datblygu Cadwyni Cyflenwi
- Mentrau Cymunedol ac Amgylcheddol
- Mentrau Cefnogi Busnesau, Trydydd Sector a Gwirfoddol
- Mentrau Cymdeithasol a Chydweithredol
- Mentrau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Mentrau Tlodi

Cyflawnodd cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru luosydd lleol o £2 yng Nghymru. Mae'r lluosydd hwn yn mesur sut mae gwariant cynllun Nyth yn sicrhau effaith a budd economaidd lleol i gymunedau. Am bob £1 a gaiff ei gwario ar gynllun Nyth, dychwelwyd £2 mewn budd economaidd. Mae'n ofynnol i Nwy Prydain, sef rheolwr cynllun Nyth, annog BBaChau yng Nghymru i gymryd rhan wrth iddynt gaffael contractwyr safle a chyflenwyr eraill. Arweiniodd hyn at greu mwy na 12 o swyddi a 32 o brentisiaethau fel rhan o gynllun Nyth. Gwnaeth cynllun 2011/18 gyflwyno hyfforddiant, gan gynnwys 8,422 o wythnosau prentisiaeth a 47 o gyfleoedd hyfforddiant pellach drwy brofiad gwaith.

Yn ystod 2017-18, cwblhaodd aelodau o dîm Nyth hyfforddiant er mwyn dod yn Genhadon STEM sy'n anelu at ysbrydoli pobl ifanc mewn pynciau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg) a'u helpu i nodi cyfleoedd gyrfa. Ym mis Medi, aeth Cenhadon STEM Nyth i Lab y Sefydliad Ffiseg mewn sioe deithiol Lori yn Ysgol Rhydywaun yn Rhondda Cynon Taf, gan

weithio gyda mwy na 350 o fyfyrwyr ar arbroffon gwyddonol ymarferol.

Ym mis Hydref, croesawodd Nyth grŵp o fyfyrwyr o Ysgol Gyfun Ebbw Fawr a oedd yn cwblhau Ysbrydoli i Gyflawni i'w safle. Prosiect Cronfa Strwythurol Ewropeaidd newydd yw Ysbrydoli i Gyflawni, a gyflwynir gan Gyrfa Cymru, sy'n anelu at gynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth ymhlith pobl ifanc gymwys.

Mae Dosbarth Busnes yn rhaglen Busnes yn y Gymuned a ddarperir gan Gyrfa Cymru sy'n creu partneriaethau cydweithredol rhwng busnesau ac ysgolion sy'n fuddiol i'r naill a'r llall. Yn ystod y flwyddyn, parhaodd Nyth i weithio mewn partneriaeth ag Ysgol Gyfun Abertyleri a gweithiodd gyda 483 o fyfyrwyr ac wyth aelod o staff gan:

- Gyflwyno sesiwn Labordy Gyrfaoedd i grŵp o fyfyrwyr Blwyddyn 11
- Hwyluso sesiwn arfer gorau gwasanaeth cwsmeriaid gyda'i thîm gweinyddu, derbynfa a busnes
- Cynnal gweithdy iechyd a diogelwch ar gyfer y staff gofalu sy'n gweithio ar ei 5 campws
- Cynnal rhaglen cyflogadwyedd gyda disgyblion Blwyddyn 11, 120 i gyd
- Helpu disgyblion Bagloriaeth Cymru i gwblhau eu 'Her Amgylchedd Byd-eang'

Drwy gydweithio â Dosbarth Busnes yn y Gymuned, daeth cyfle i fynd â CRE8 i'r gogledd-ddwyrain, gan ailadrodd yr hyn a wnaed gyda chlwtwr ysgolion Blaenau'r Cymoedd y llynedd. Cystadleuaeth rhwng ysgolion yw CRE8 sy'n anelu at wella dealltwriaeth disgyblion ysgol o ddewisiadau gwaith a gyrfa lle mae myfyrwyr yn dylunio cynnyrch ynni effeithlon o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. Cynhaliwyd rhagbroffon ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr a chymerodd wyth ysgol ran yn rownd derfynol CRE8 ym Mhrifysgol Glyndwr ym mis Ionawr. Daeth Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, i'r rownd derfynol a siaradodd â phob un o'r timau oedd yn cymryd rhan am eu cynnyrch ynni effeithlon.

Hefyd, cymerodd Nyth ran yn Wythnos Busnes Cyfrifol a drefnwyd gan Busnes yn y Gymuned a chynhaliodd ddigwyddiad gyda Chwarae Teg i ddatlu'r merched o dîm Nyth a oedd wedi cwblhau rhaglen datblygu Cenedl Hyblyg 2 yn llwyddiannus. Hefyd cymerodd Nyth ran yn Niwrnod Rhoi a Chael Busnes yn y Gymuned lle gwnaeth gwirfoddolwyr Nyth fynd i Ysgol Gynradd Rhyd y Grug yn Aberfan a chynnal amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys paentio a thacluso safle'r ysgol.

Edrych i'r dyfodol

Ar gyfer 2018–19, yn dilyn proses gaffael Ewropeaidd, mae Nwy Prydain wedi'i benodi'n rheolwr cynllun contract Nyth newydd Llywodraeth Cymru sydd ar waith am y pum mlynedd nesaf.

Bydd y cynllun yn parhau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru ac yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner i sicrhau bod y cynllun yn cyrraedd yr aelwydydd hynny sydd â'r angen mwyaf
- Datblygu gwaith ymgysylltu â'r sector iechyd ymhellach i brofi'n llawn y broses atgyfeirio iechyd broffesiynol am 12 mis arall i bobl sy'n dioddef o gyflyrau iechyd cronig sy'n effeithio ar eu system anadlol neu gylchrediad y gwaed sydd yn aml yn gwaethygu o ganlyniad i fyw mewn cartref oer neu laith
- Ymchwilio i amrywiaeth o gyflyrau iechyd meddwl sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru ac er mwyn gweld ai deiliaid tai â chyflyrau iechyd meddwl penodol fyddai'n cael y budd mwyaf o becyn o fesurau effeithlonrwydd ynni drwy gynllun Nyth
- Sicrhau cyllid ychwanegol i'r cynllun o'r Rhwymedigaeth Cwmniâu Ynni, er mwyn helpu mwy o aelwydydd incwm isel i gael budd o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref
- Parhau i gyfrannu at strategaethau ynni a thlodi Llywodraeth Cymru
- Gweithredu yn unol â'r gwerthoedd a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys cydweithredu, integreiddio ac atal

Bydd tîm Nyth hefyd yn parhau i ddatblygu ei weithgareddau buddiannau cymunedol gan gynnwys ei bartneriaeth â rhaglen Dosbarth Busnes gan Busnes yn y Gymuned a'r cydweithredu â chlwtwr ysgolion y gogledd-ddwyrain drwy raglen CRE8.

Bydd y tîm yn cynyddu cyfleoedd i hyrwyddo cyflogaeth a dysgu ymhlith pobl ifanc a bydd yn cyflwyno ysgoloriaeth, mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, ar gyfer disgybl Cymraeg sy'n gadael yr ysgol a gaiff y cyfle i ennill cymwysterau ychwanegol.

Gan weithio gyda'n rhwydwaith o osodwyr a chyflenwyr yng Nghymru, bydd Nyth hefyd yn arwain tîm o wirfoddolwyr er mwyn cynnal prosiect adfywio cymunedol ac adnewyddu adeilad neu ardal gymunedol ar y cyd â phartneriaid lleol.



"Mae'r ffaith bod gennym system fwy dibynadwy ac effeithlon wir yn rhoi tawelwch meddwl i ni. Mae fy ngwraig yn teimlo'r oerfel, felly mae peidio â phoeni am y system anwadal yn well o lawer."

Un o drigolion Llanbedr Pont Steffan

